

Adfent 2012

Emyn Mawl Mair (Luc 1: 46-55) - 1

Emyn Mawl Mair - Daw'r geiriau emyn o enau merch ifanc, feichiog, dibwys a distadl a aeth i ymweld â'i chyfnither, Elisabeth, a oedd hefyd yn feichiog. Ar ôl i Elisabeth gyhoeddi bendith, offrymodd Mair ei chân: "*Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy Ngwaredwr ... sanctaidd yw ei enw*" (Luc 1: 46-49). Yna newid cywair: "*Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl ...*" (Luc 1: 51 a 52). I Mair a'i phobl, 'roedd y geiriau hyn yn finio o berthnasol. 'Roeddent, gyda'i gilydd, yn dyheu am gael gweld Duw yn tynnu un tywysog penodol oddi ar ei orsedd: Herod!

Trwy ganiatâd Rhufain, Herod Fawr oedd Brenin yr Iddewon. 'Roedd yn wleidydd craff! 'Roedd yn deyrn; igam-o-gamodd ei ffordd, yn ysgafndroed, trwy holl helyntion a thrafferthion gwleidyddol ei gyfnod. Bu Herod yn gefnogol i'r Ymerawdwr Julius Cesar, hyd nes i hwnnw gael ei lofruddio, yna bu'n gefnogol i Mark Anthony hyd nes i Gesar Awgwstws ei oddiweddyd, ac o hynny ymlaen bu'n gefnogol i'r Cesar hwnnw. Ceiliog y gwynt o ddyn oedd Herod! Bu'n byw ei fywyd gan gredu mai gwell troi gyda'r gwynt, na chael ei ddymchwel ganddo! 'Roedd Herod yn hoff iawn o adeiladu, yn arbennig codi adeiladau a fyddai'n gofnod o'i fodolaeth. Y mwyaf o'i adeiladau oedd Teml Jerwsalem. Adeilad ysblennydd a noddwyd gan Herod wrth iddo wasgu arian o'r tlawd, y dibwys a'r distadl. Mynnodd nawdd o bobl debyg i bobl Mair. Gallwn felly ddeall ymateb Iesu i'r Deml yn Jerwsalem. Gwyddai Iesu, fel ei gyfoeswyr, i'r Deml hon gael ei hadeiladu, nid er clod i Dduw, ond er mwyn i Herod cael bod yn Herod Fawr a hynny ar draul pobl fel Mair, ei rhieni a, maes o law, ei phlant. Gwyddai Herod fod pobl yn ei gasáu ac, o'r herwydd, trefnodd bod 70 o wleidyddion, arweinwyr cymuned a chrefydd, amlycaf dinas Jerwsalem, ar ddydd ei farwolaeth, yn cael eu lladd, er mwyn sicrhau bod Jerwsalem gyfan yn wylo ar ddydd marw Herod Fawr! Er gwaethaf natur ei gymeriad 'roedd gan Herod ddawn i oresi. Goroedd pob bygythiad, amlwg a thawel, a daliodd ei afael yn dynn ac yn hir ar awenau grym mewn cyfnod, ac ardal, anodd iawn. Yna, daeth Seryddion o'r Dwyrain i Jerwsalem a gofyn: "*Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon?*" (Mathew 2: 2) Golchodd ton sydyn o fraw dros Herod; gwyddai bod hyn yn fygythiad arall, cwbl newydd i'w orsedd! Yn y cyfamser, 'roedd Mair yn canu ei chân. "*Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl ...*" - aeth y dôn yn angof, ond ers y geiriau. Canodd Mair ei chân, ac fe ddysgodd ei phlant i'w chanu, a'r plant eu plant hwythau. Maes o law, cofnodwyd y geiriau gan Luc. ***Dim ond dau berson oedd yn llwyr sylweddoli gwir fygythiad geni Iesu Grist! Herod Fawr a Mair Fach. I Mair, 'roedd Iesu'n obaith newydd, ffrwydrol ei oblygiadau. I Herod, 'roedd yn fygythiad o'r radd flaenaf; rhaid oedd diffodd y bywyd newydd hwn!***

"*Gwnaeth rymuster â'i fraich, ... tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl; llwythodd y newynog â rhoddion, ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw*" (Luc 1: 51-53) Try Duw'r cyfan a'i ben i waered: daw pobl y gwaelod i'r top ... a syrth pobl y top i'r gwaelod; daw pobl yr ymylon i'r canol ... a symudir pobl y canol yn i'r ymylon; daw'r olaf yn flaenaf ... a'r blaenaf yn olaf. Datgan Emyr Mawl Mair mai dyma fwriad ac ewyllys Duw i'w bobl a'i fyd. Ond Mair Fach ddywedodd hyn! Pwy a wrendy arni? Nid tywysoges mohoni, nid merch ddisglair ei thalentau nac aeres tiroedd a chyfoeth. Tlawd, dibwys a distadl ydoedd! 30 mlynedd yn ddiweddarach oni fu i fab Mair Fach ganu cân syndod o debyg? "*Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd ... Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru ... Gwyn eu byd y rhai addfwyn ... Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder ... Gwyn eu byd y rhai trugarog ... Gwyn eu byd y rhai pur eu calon ... Gwyn eu byd y tangnefeddwyr ...*" (Mathew 5: 3 - 10) O ble cafodd Iesu'r gân hon? Oddi wrth Mair, ei fam? Dysgodd y Mab wirionedd oesol cyfoes gan Ei fam: nid oes a wnelo trais, gorthwrwm ac anghyfiawnder ag Ewyllys Duw. Mab Mair Fach a dynnodd Herod Fawr oddi ar ei orsedd, a hynny nid trwy rym arf a dwrn, ond trwy rym cariad. Methodd Herod igam-ogamu heibio i Iesu!

Onid dyna neges Emyr Mawl Mair yn Adfent 2012? Dros 2,000 mlynedd yn ôl, trodd Duw hanes y byd a'i ben i waered gan ddefnyddio Mair Fach a'i bychan Iesu. Heddiw, ynom, trwom ac er ein gwaethaf, mae Duw wrth ei waith yn troi'r drefn a'i phen i waered, gan ddefnyddio'r bychan, y dibwys, y tlawd a'r distadl.

*"Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain...
Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr."
(Plentyn y Ddaear gan Waldo Williams 1904 – 1971; Dail Pren (cyh. 1956. Gwasg Gomer))*

Emyn Mawl Mair (Luc 1: 46-55) - 2

Sut mae cysylltu Emyr Mawl Mair â Bwrdd yr Arglwydd? Anodd iawn yw cael llawenydd, didwyll a ffug, mawl a meddwi'r Wyl i asio â Bwrdd y bwyta, yfed a chredu. Mae bwrlwm y naill yn taro yn erbyn tawelwch y llall. Luc yw'r unig Efengylwr sy'n cofnodi Emyr Mawl Mair; cwyd un thema fel cywair i'r Efengyl gyfan: “*Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl ...*” (Luc 1: 51-53). Yn Efengyl Luc, mae Ioan, y Bedyddiwr miniog, yn newid ychydig ar eiriau mawr Eiseia, i sôn am bob mynydd a bryn wedi ei lefelu (Luc 3: 5). Sôn am ostwng mynydd a bryn mae Eiseia (Eiseia 40: 3), ond myn Ioan y bydd Duw yn lefelu popeth! Mae'r syniad o Dduw yng Nghrist yn lefelu popeth yn allweddol bwysig i Luc. Awdur peryglus oedd!

“*Pan welodd Iesu'r tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd ... daeth ei ddisgyblion ato. Dechreuodd ... a'u dysgu fel hyn: Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd ...*” (Mathew 5: 1-3). Gallwn gymharu Mathew â Luc: “*Aeth i lawr gyda hwy ... gyda thyrfu niferus o'i ddisgyblion a llu niferus o bobl ... Yna cododd ef ei lygaid at ei ddisgyblion a dweud: Gwyn eich byd chwi'r tlodion ...*” (Luc 6: 17-20). ‘Roedd Luc yn awdur peryglus oherwydd ei ddiddordeb mawr yn y gorthrymedig, y diamddiffyn, y tlodion, yr ymylol a'r ysgymun. Mynnodd Luc i ni weld gofal Iesu am y gorthrymedig, y diamddiffyn, y tlodion, yr ymylol a'r ysgymun fel y peth pwysicaf a godidocaf amdano. Nid pregethu brawdoliaeth yn unig a wnaeth Iesu, meddai Luc, ond dod yn Frawd - dod i berthynas barhaol â ni. Yn Efengyl Luc mae Duw, yng Nghrist, yn brysur wrth ei waith yn lefelu pob mynydd a bryn, yn tynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau ac yn dyrchafu'r rhai distadl. Mae'r sefydliad crefyddol yn Jerwsalem, y sefydliad gwleidyddol yn Rhufain a'r sefydliad academiaidd yn Athen dan warchae gan fab bychan y ferch ifanc hon o Nasareth. Ynndo, a thrwyddo, ac o'i herwydd dymchwelir y rhai sy'n dal awenau grym a thrais yn eu dwylo: “*gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau*” (Luc 1: 52). Awdur peryglus oedd Luc am ei fod yn credu mewn Duw peryglus! Duw peryglus sydd yn mynnu cael bod yn agos atom ni: “*fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol ... Am hynny, tra dyrchafodd Duw ef*” (Philipiaid 2: 7-9) .

Hanfodion y Nadolig yw dathlu a llawenydd. Hanfodion y Bwrdd yw edifeirwch ac aberth. Tra bod edifeirwch ac aberth yn gyfryngau i ddod â ni yn ôl at Dduw, maent hefyd yn gyfryngau i ddod â phobl at ei gilydd, gan ein hatgoffa bod ein bywyd ni wedi ei blethu â bywyd ein brodyr a chwiorydd drwy'r byd. Mae gwir edifeirwch ac aberth yn lefelu bywyd. Myn Mair, ein bod yn mawrygu'r Arglwydd oherwydd iddo, ym mhob oes a chyfnod “*(d)ynnu yma i lawr ... codi draw*” (David Charles, 1762 - 1834; *C.Ff.* 114). Wrth ganu Emyr Mawl Mair ac wrth y Bwrdd rhaid i ni ofyn i ba raddau yr ydym yn hybu'r lefelu hwn, yn cyfrannu iddo ... ac i ba raddau yr ydym yn ei rwystro ac yn gweithio yn ei erbyn? Mae ein crefydd yn dueddol o droi ar echel fyfiol iawn; naturiol yw ei ogwyddo tuag at ein hanghenion personol ac unigol. Gwir a diogel echel crefydd yw nyni nid myfi - os yw'r Testament Newydd yn dweud rhywbeth o gwbl, mae'n dweud ar bob tudalen na fedra' i gael Duw i mi fy hunan yn annibynnol ar fy mrodyr a chwiorydd.

“*Mae rhwydwaith dirgel Duw, yn cydio pob dyn byw,
cymod a chyflawn we Myfi, Tydi, Efe.*”

(*Brawdoliaeth* gan Waldo Williams 1904 – 1971; Dail Pren (cyh. 1956. Gwasg Gomer))

Wrth y Bwrdd, wrth rannu'r bara a'r gwin, cawn ein hatgoffa fod ffydd bob yr un ohonom yn cynnal ffydd pob un arall. Calon yr Efengyl yw nid Duw, dyn a chyd-ddyn, ond Tad, mab a brawd. Wrth ganu Emyr Mawl Mair wrth y Bwrdd, gofynnir i ni gydnabod ein bod, yn ein ffordd o fyw, yn anfwriadol a bwriadol, yn dyrchafu'r tywysogion ac yn gwthio'r distadl i'r llwch. Gofynnir i ni hefyd ystyried pa fynydd a bryn sydd angen i ni lefelu yn ein perthynas ag eraill. **Gwahodd Emyr Mawl Mair ni i ddefnyddio Adfent 2012 fel cyfle i lefelu!** Fe'n gwahoddir i wneud hynny yn y wybodaeth bod ein hymdrech ninnau i lefelu mynydd a bryn ein byw yn cyfrannu'n fawr i ymdrech oesol Duw i wasgaru'r rhai balch eu calon. Wrth ganu Emyr Mawl Mair gofynnir i ni ystyried pa fynydd a bryn sydd angen i ni lefelu yn ein perthynas â ni ein hunain. Gwahodd Emyr Mawl Mair ni i ddefnyddio Adfent 2012 i ddyrchafu'r distadl – y fi tawel a swil hwnnw yn ein byw a'n perthynas ag eraill. Mae'r Emyr hwn yn wahoddiad i ddarostwng y fi fawr hwnnw sy'n mynnu esgus bod yn fwy, gwell, uwch nag ydyw. **Ar ddechrau Adfent 2012, o amgylch y Bwrdd, mewn edifeirwch, boed i ni gofio ac atgoffa'n gilydd ein bod yn rhan o'r broses o dynnu'r balch oddi ar eu gorseddau ac o ddyrchafu'r rhai distadl. Heb i ni ymroi i hynny byddwn yn rhan o'r broses o gynnal a chadw'r balch ar eu gorseddau, a darostwng y rhai distadl. Ac ni wna hynny'r tro!**

Emyn Mawl Mair (Luc 1: 46-55) – 3: Breuddwyd Duw

“... *the treetops glisten, the children listen to hear sleigh bells in the snow.*” (*White Christmas* gan Irving Berlin (1888 - 1989). Breuddwydio am Nadolig dan drwch o eira wnaeth Irving Berlin ym 1942; beth yw gwrthrych ein breuddwydion ni y Nadolig hwn? Beth ddywed ein breuddwyd Nadolig amdanom tybed? Beth ddywed ein breuddwyd Nadolig am beth sydd, a beth sydd ddim, yn bwysig i ni dros yr Ŵyl? Oni aethom yn ddilornus o'r freuddwyd, yn ddrwgdybus o'r breuddwydiwr? Mae'r Beibl yn drwch o freuddwydion: Jacob (Genesis 28:10 - 22), Joseff (Genesis 40: 1 - 8); Pharo (Genesis 41:14 - 24); Job (Job 4:15 - 17, 7: 13 - 14 a 42: 7 - 9); Nebuchadnesar (Daniel 4); Solomon (1 Brenhinoedd 3:3 - 10); Seryddion Mathew (Mathew 2: 12) a Joseff, gŵr Mair (Mathew 2:19). Yr un neges sydd i'r breuddwydion hyn i gyd: mae Duw gyda'i bobl! “*Gwyddom*”, meddai Paul, “*fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu ...*” (Rhufeiniaid 8: 28a).

Breuddwyd Jacob: “*Breuddwydiodd ei fod yn gweld ysgol wedi ei gosod ar y ddaear, a'i phen yn cyrraedd i'r nefoedd, ac angylion Duw yn dringo a disgyn ar hyd-ddi.*” (Genesis 28: 12). Os mai yn y nefoedd gyda Duw y mae'r angylion, onid *disgyn a dringo* dylai'r angylion fod yn eu gwneud? Neges Awdur Genesis yw bod Duw gyda ni, ar waith yn ein plith, ac, felly, “*dringo a disgyn*” a wna'r angylion. I gadarnhau hynny, meddai Duw wrth Jacob: “*Wele, yr wyf fi gyda thi, a chadwaf di ble bynnag yr ei ...*” (Genesis 28: 15a). Ym mhob un o freuddwydion y Beibl, cawn gip olwg ar freuddwyd Duw - Ef gyda ni, a ni gyda'n gilydd.

Mair a Joseff: Yn Efengyl Mathew cawn gofnod o ymateb Joseff i feichiogrwydd ei ddyweddi Mair, ac ymateb Duw i'r ymateb hwnnw: “*Onid wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, “Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynnddi yn deillio o'r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu Immanuel: Y mae Duw gyda ni.*” (Mathew 1: 20 - 23). Cymerodd Joseff Mair yn wraig iddo. Ildiodd i rym a thynfa breuddwyd fawr Duw. Yn Efengyl Luc cawn gofnod o ymateb Mair i gais Gabriel. Meddai'r angel, “*Paid ag ofni, Mair, oherwydd cefaist ffafr gyda Duw; ac wele byddi'n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu (Immanuel)*” (Luc 1:30). “*Dyweddodd Mair “... bydded i mi yn ôl Gair Duw.”*” (Luc 1: 38)

Beth a wnelo hyn ag Emyr Mawl Mair? Emyr Mawl Mair yw breuddwyd Duw ar gân. Ef gyda ni, a ni gyda'n gilydd. Dysgu person o dalent a wneir ond deffro person o athrylith. Cafodd Mair y deffroad hwnnw, a dihunwyd ei hathrylith ynnddi! Dihunwyd athrylith y ferch ifanc hon, ac ym merw a thrafferth bywyd ei chyfnod cannodd Mair freuddwyd mawr Duw. Cyn gellir gwneud argraff ddofn ar y byd, rhaid wrth y person iawn a'r adeg iawn. Er mwyn newid y byd, nid digon y person a'r lleoliad, rhaid hefyd wrth y tragwyddol. Yn Mair, fe gyferfydd y tri: Mair fach, tlawd, dibwys, distadl; Bethlehem Effrata, bychan, dibwys, distadl a breuddwyd anferthol Duw! “*Y mae fy enaid yn mawrygu'r Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy Ngwardwr ... Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl ...*” (Luc 1: 46 - 49, 51 a 52). Ond bu i ni osod gofynnod yn lle'r ebychnod! ... gwasgaru'r rhai balch eu calon? ... tynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau? ...dyrchafu'r rhai distadl? Aethom ymhellach: Fe drig y blaidd gyda'r oen? ... Fe orwedd y llewpard gyda'r myn? (seiliedig ar Eiseia 11: 6) “*Pa feddwl, pa madrodd, pa ddawn, pa dafod all osod i maes*” (John Williams 1728 - 1806; C.Ff. 347) faint y trychineb a ddaw pan mae pobl Dduw yn llacio'u gafael ar freuddwyd Duw.

Vulture Stalking a Child (gan enillydd Gwobr Pulitzer 1993 - Kevin Carter (1960 - 1994)). Nid oes dim y medrwn ni ei wneud i newid y byd! ... fel pob chwedl, nid yw hyn yn wir. Mae gennym freuddwyd ac ymhyg yn y freuddwyd hon mae pob un breuddwyd o'n heiddo - Breuddwyd Duw. Llwyddodd Mair fach i droi'r freuddwyd hon yn gân. Un o anhepgorion ffydd yw ymuno yn y gân hon, a chanu mewn ffydd, gobaith a chariad Emyr Mawl Mair. Er ei lladd a'i chladdu mae Breuddwyd Duw yn mynnu codi a chodi fyth yn gymorth, yn gysur, yn gynhaliaeth ac yn her i ni a'n tebyg. Beth yw gwrthrych ein breuddwyd y Nadolig hwn? Plethwn ein breuddwydion i freuddwyd Duw a gwau breuddwyd Duw i batrwm ein byw a'n bod, fel ein bod ni, pobl Dduw yn ... gwasgaru'r rhai balch eu calon ... a thynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau ... a ... dyrchafu'r rhai distadl (addasiad o Luc 1: 51 - 52) Ynom, a thrwom, ac er ein gwaethaf ...

“*Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain...*”

“*Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr.*”

(Plentyn y Ddaear gan Waldo Williams 1904 - 1971; Dail Pren (cyh. 1956. Gwasg Gomer))

Emyn Mawl Mair (Luc 1: 46-55) – 4: Ein Hemyn Mawl

Yn ôl hen goel Wyddeleg, bu i'r haul, y lloer ysblennydd a holl sêr y nefoedd sefyll yn stond a thawel wrth i Gabriel gyfarch Mair: "*Paid ag ofni, Mair, oherwydd cefaisst ffafr gyda Duw, ac wele byddi'n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu ...*" (Luc 1:30). Y greadigaeth gyfan wedi fferru mewn braw! Beth os na fyddai Mair yn fodlon derbyn cyfrifoldeb mor fawr? Pob peth yn stond, syfrdan ... aros i glywed beth ddywed Mair? Daeth yr ateb: "... bydded i mi yn ôl dy air di" (Luc 1 38a). Derbyniodd Mair dwy neges gan Gabriel. Y cyntaf i ddweud y byddai'n esgor, a'r ail, bod yr amhosibl yn bosibl i Dduw: "*Ac wele, y mae Elisabeth dy berthynas hithau wedi beichiogi ar fab yn ei henaint ... oherwydd ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw*" (Luc 1: 36 a 37). Ildiodd Mair ei hunan i Ewyllys Duw: "... bydded i mi yn ôl dy air di ..."; cafodd Duw gyfle i achub y byd! Gydag ochenaid o ryddhad, aeth Gabriel i ffwrdd oddi wrth Mair, ac "*ar hynny cychwynnodd Mair ac aeth ar frys i'r mynydd-dir, i un o drefi Jwda i dŷ Sachareias a chyfarch Elisabeth*" (Luc 1: 39). Bwriada Luc i ni ddarllen yr adnodau hyn gyda'i gilydd: "*Dywedodd Mair, "Dyma lawforwyn yr Arglwydd; bydded i mi yn ôl dy air di." Ac aeth yr angel i ffwrdd oddi wrthi. Ar hynny cychwynnodd Mair ac aeth ar frys i'r mynydd-dir, i un o drefi Jwda i dŷ Sachareias a chyfarch Elisabeth.*"

Cafodd Mair gynnig anhygoel ond brawychus o fawr gan Dduw! Mair fydd y llong "*a ddug i dir y cargo druta' 'rioed - y Mawr a wnaeth y moroedd.*" (o: *Y Dyfod* gan Gwilym R Jones, 1903 – 1993 yn *Nadolig y Beirdd* Gol. Alan Llwyd Cyhoeddiadau Barddas 1988). Trowyd ei byd ben i waered ond: "**Ar hynny cychwynnodd Mair ac aeth ar frys i'r mynydd-dir.**" Gwelwn ruddin, cryfder cymeriad a dyfnder enaid; nid Morwyn Fair, lled-wan a llwyd ei gwedd, ond Mair, merch ifanc dyner, cryf a phenderfynol, yn cytuno i rywbeth syfrdanol o fawr. Gwyddai Mair mai'r un peth oedd ei angen arni oedd cwmni rhywun oedd yn deall; 'roedd gan Dafydd, Jonathan; gan Iesu, deulu bach Bethania ... dim ond un person allai gydymdeimlo â sefyllfa Mair: "*Ar hynny ... aeth ar frys*" ... i weld Elisabeth, un arall y trodd Duw ei byd ben i waered! Elisabeth a Mair: 'roedd gobeithion y naill yn rhan o'r llall, dioddef ac ofnau un yn eiddo i'r llall; mae byd yn naill yn well oherwydd bodolaeth y llall. **Mynnwn gyfle'r Nadolig hwn i fynegi'n diolch i'r rheini sydd yn ein cynnal, y bobl sydd yn deffro'r gorau ynom, ac sydd yn dod o hyd i ni bob tro y gadawn ein hunain ar ôl yn rhywle.**

A ddywedodd Mair wrth Joseff ei bod hi'n mynd? A oedd yn fwriad gan Mair i aros am gyfnod mor hir? Ai cilio oedd hi rhag si, sôn a sibrwd ei chymuned yn Nasareth? Ofer dyfalu, ond gwyddom iddi gael croeso. Cawn awgrym gan Luc bod Mair yn gyfarwydd â'r daith ac yn gyfarwydd â'r tŷ. Cofnoda hefyd ymateb Elisabeth i gyfarchiad Mair "*... llefodd â llais uchel, "Bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd, a bendigedig yw ffrwyth dy groth..."*" (Luc 1: 42). Gofyn Elisabeth: "*Sut y daeth i'm rhan i fod mam fy Arglwydd yn dod ataf?*" (Luc 1: 43). Pa ryfedd i Elisabeth gynhyrfu ... ac mae Mair yn dal yr hwyl! Cydia'r cynnwrf ynddi ac, o'r herwydd, cân ei chân. Cafodd Mair ddeffroad yng nghegin Elisabeth; yno, dihunwyd ei hathrylith a chân: "*Y mae fy enaid yn mawrygu'r Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy Ngwardwr ... sanctaidd yw ei enw ... Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl.*" (Luc 1:46 - 49, 51 a 52). Mae cynnwrf Elisabeth yn deffro Mair o'r bensiynod a ddaeth yn sgil ymweliad yr angel. Try'r syndod mudan yn gân, yn fwrlwm o ffydd, yn wefr o obaith ac yn ffrwydrad o gariad. Mae Mair yn canu a dawnsio, oherwydd i Dduw wneud pethau mawr iddi, ynddi a thrwyddi. Yn reddfol, oni ddymunwn rannu newyddion da? Onid dyna ddiben Emyr Mawl Mair? Cyhoeddi a rhannu newyddion syfrdanol o dda am ymgawdoliad Cariad Mawr Duw.

Adfent 2012: Emyr Mawl Mair. Mae angen i bawb ohonom ddysgu canu ein hemyn mawl ein hunain! Mewn oedfa down i gwrdd â'n gilydd, i gwrdd â Duw gyda'n gilydd ac i blethu'n breuddwydion i Freuddwyd Duw. Eleni eto, ar Noswyl Nadolig byddwn yn dod at ein gilydd yn llonydd, yn stond ac yn dawel aros am y newyddion da o lawenydd mawr: "*ganwyd i chwi heddiw ... Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd*" (Luc 2: 11). Sut y daeth i'n rhan bod yr Arglwydd yn dod atom? Am fod Duw yn ein caru, yn ymhyfrydu ynom, ac am ein harwain at y bywyd sydd yn fywyd go iawn. Unwn yng nghân yr angylion: "*Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, ymhlith pobl, ewyllys da*" (Luc 2: 14).

Dyna pam, yr Adfent hwn, y dylem, bawb ohonom, lunio ein hemyn mawl ein hunain a'i ganu nes bod 'sanau'n traed' yn cwmpo! Canu'n llawen, oherwydd bod gennym ni, pawb ohonom, reswm i fawrygu'r Arglwydd; gorfoledded ein hysbryd yn Nuw, ein Gwardwr. Ystyriodd ein distadledd ... gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau mawr i ni, a sanctaidd yw Ei enw!

Emyn Mawl Mair (Luc 1: 46-55) – 5: Pwy sydd eisïau bod yn Mair?

A oedd Mair, tybed, am fod yn Mair? Cwestiwn allweddol i'n deall o Emyr Mawl Mair. “*Ond cythryblwyd hi drwyddi gan ei (Gabriel) eiriau, a cheisiodd ddirnad pa fath gyfarchiad allai hwn fod*” (Luc 1: 29). Mae'n gwbl amlwg nad oedd Mair am fod yn Mair yn nrama fawr achub byd! ‘Roedd y rôl honno’n ormod iddi! Wedi ymweliad Gabriel: “*cythryblwyd hi drwyddi!*”’ Roedd Mair yn “*much perplexed*” (New Revised Standard Version), “*greatly troubled*” (New International Version), “*thoroughly shaken*” (*The Message*) a “*confused and disturbed*” (New Living Translation). Pwy sydd eisïau bod yn Mair? Neb? Yn sicr, nid oedd Mair yn dymuno bod yn Mair! Nid peth bach yw bod ar lwyfan hanes o dan gyfarwyddyd Duw! Dymunodd sawl un o gymeriadau mawr y ddrama ffoi o'r llwyfan: Moses, Jeremeia, Eiseia ac, hyn yn oed, Iesu ei hun. Gellid dweud ein bod mewn cwmni da os ydym weithiau'n dymuno cael cefnu ar waith Duw, a chamu, nid i'r adwy, ond yn dawel o'r neilltu gan adael i arall i osod ysgwydd ac enaid o dan y pwysau.

Ond nid “*cythryblwyd hi drwyddi!*” yw diwedd Stori Mair. Arswydodd a bu'n amau ond wedyn, mae'n hawlio, gydag argyhoeddiad, y rôl yn eiddo iddi hi. Hi piau'r cyfrifoldeb hwn! Does neb arall yn cael bod yn Llawforwyn yr Arglwydd, neb ond Mair o Nasareth! A gyda'r dycnwch hwn mae'n dechrau canu, nid cytgan dof, penchwiban ond emyn! Emyr mawl â min iddo, emyn oesol cyfoes: “*Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy Ngwardwr ... sanctaidd yw ei enw ... Gwnaeth rymuster â'i fraich, gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl*” (Luc 1: 46-49, 51, 52).

Onid oes angen ar i bob un ohonom, o'r ieuengaf i'r hynaf, dyfu i fod yn fwyfwy tebyg i Mair? Boed i ninnau, fel Mair, ganiatáu i fawredd Duw ein goddiweddyd ... a'i gariad Ef i dreiddio hyd at ein gwreiddyn. Byddwn fentrus a medrus, a beiddgar a chall; yn glynu wrth faddeuant, trugaredd a sancteiddrwydd Duw, yn llawn, llawn llawenydd. Boed i ni yn swm Emyr Mawl Mair ddeall, a chael eraill i ddeall mai tynerwch, tosturi, cariad, caredigrwydd yw'r egnïon sy'n peri newidiadau mwyaf y byd. **Boed i'n bywyd ni fel eglwys esgor ar y Gair.** Byddwn ddewr dros y Ffydd, a theyrngar i'n Harglwydd “*... oherwydd gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau mawr i ni, a sanctaidd yw ei enw ef; y mae ei drugaredd o genhedlaeth i genhedlaeth i'r rhai sydd yn ei ofni ef.*”

Emyn Mawl Mair (Luc 1: 46-55) – 6: Nid hapus ond llawen ...

Un o bennaf fendithion ffydd yw'r gallu i ymlawenhau er gwaethaf pob trafferth, gofid a phoen. **Mae llawenydd ein ffydd yn lletach a dyfnach, yn uwch a gwell na phob hapusrwydd.** Dibynna hapusrwydd ar amgylchiadau; mae llawenydd yn annibynnol o amgylchiadau. Ffrydia llawenydd ffydd o'r argyhoeddiad fod Duw wedi dod atom yn Iesu Grist, a'i fod “*... yn llond pob lle, yn bresennol ym mhob man.*” (David Jones, 1805 - 68; *C.Ff.* 76) Dywedodd Gabriel wrth Mair: “*Henffych well, tydi, yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi! Y mae'r Arglwydd gyda thi.*” (Luc 1: 28b). Cythryblwyd Mair! Merch ifanc a'i byd eisoes a'i ben i waered! ‘Roedd ar fin priodi. ‘Roedd ei dyweddi - Joseff - llawer yn hŷn na hi. ‘Roedd ei theulu, un ac oll, yn brysur yn ceisio cael y cyfan oll i drefn. Rhaid byddai iddi adael ei chartref a symud i fyw at Joseff a'i deulu estynedig. ‘Roedd bywyd Mair eisoes a'i ben i waered ac i ganol y cyfan daeth angel, a chreu o sefyllfa anodd, sefyllfa newydd a oedd ganwaith anoddach! Oddi mewn i'w chorff maen bywyd na welodd y byd ei debyg. Mae'r Gair ynddi'n ymgnewdoli! Pa ryfedd iddi gythryblu?! ‘Roedd arni ofn bod yn fam, ac ‘roedd ofn ei mam arni! ‘Roedd ofn Duw arni, ac ofn ei chymuned arni hefyd. ‘Roedd Duw a Gabriel yn gwybod fod Mair yn wyrth o fam, ond gwyddai Mair i bawb yn Nasareth, gwarth o fam y byddai!

Yr un peth, yn anad dim byd arall, oedd angen ar Mair oedd cwmni rywun oedd yn deall. Dim ond un person allai ddeall Mair ... Elisabeth, un arall y trodd Duw ei byd ben i waered! Wrth groesi rhiniog drws Sachareias ac Elisabeth, cyfarch Mair Elisabeth a mynna llawenydd Elisabeth fynegiant: “*Pan glywodd hi gyfarchiad Mair, llamodd y plentyn yn ei chroth a llanwyd Elisabeth â'r Ysbryd Glân; llefodd â llais uchel, “Bendigedig wyt ti ymhlith gwragedd, a bendigedig yw ffrwyth dy groth...*” (Luc 1: 41 -42). Bendigedig? Nid oedd Mair wedi meddwl ryw lawer am y darn hwnnw o'i phrofiad! Lletchwithdod a gofid ei sefyllfa oedd wedi mynnu sylw hyd yn hyn; ond mae geiriau Elisabeth yn cydio ynddi ac yn ei deffro. Hyd yn hyn, ‘roedd Mair wedi llwyr anghofio cyfarchiad yr angel: “*Henffych well, tydi, yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi! Y mae'r Arglwydd gyda thi.*” ‘Roedd Mair yn Fendigedig! Aeth hynny'n angof ganddi! A hithau bellach yng nghegin Elisabeth, mae'r ffaith honno yn cydio ynddi ac wrth syllu i lygaid llon Elisabeth, mae

Mair yn gweld y gwir. Bendigedig yw Mair o Nasareth! Bendigedig yw'r bywyd sydd yn ymffurfio ynddi. O sylweddoli hyn a Mair ati i ganu: "*Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd, a gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw ... am iddo ystyried distadledd ei lawforwyn ... o hyn allan fe'm gelwir yn Wynfydedig gan yr holl genedlaethau, oherwydd gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau mawr i mi, a sanctaidd yw ei enw ...*" (Luc 1: 46-49). Wrth ganu, mae ei chalon yn curo o gariad, a llawenydd yn llifo yn ei gwythiennau: "*Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd ... sanctaidd yw ei enw!*" Testun Cân Mair yw'r cyfan oll mae Duw wedi cyflawni, yn cyflawni, ac yn bwriadu cyflawni! I Mair, nid gwrthrych yw Duw bellach, ond profiad. Cam, er hynny, â Mair yw dweud mai dim ond canu'i phrofiad hi ei hun a wna. Wrth ganu'r emyn, mae Mair yn mynd y tu hwnt ac uwch law i'w phrofiad ei hun a phrofiad pawb arall y gwyddai amdanynt, at brofiad pob oes a chenedlaeth o bobl Dduw. Mae Mair yn canu gyda, a thros y tlawd, dibwys, distadl; yr unig, galarus, gofidus ym mhob man, ac ym mhob oes! **Atgoffa Emyn Mawl Mair mai Bendigedig ydym ninnau bob un. Mae Duw yn ymfrydu ynom ni ac mae Duw ar waith ynom a thrwom; ei drysor ef ydym.**

"Santa Clause is coming to town. You better watch out, You better not cry ... Santa Claus is coming to Town"(allan o *Santa Clause is Coming to Town* gan John Fredrick Coots, 1897 - 1985, a Haven Gillespie, 1888 – 1975, ac a ganwyd gyntaf yn 1934) Cân llawer mwy poblogaidd nag Emyn Mawl Mair ond, os yw'r gân yn boblogaidd, yr emyn sydd lesol! Mae Mair yn canu dros, a gyda'r bobl sydd yn wylo'r Nadolig hwn ... o Fachynlleth i Newtown, o Ynysoedd y Philipinos i Ruthun a Llanelwy, a Thalybont. Mae'r gân yn cynnig hapusrwydd, mae'r Emyn yn estyn llawenydd. Nid digon *Happy Christmas* eleni, Nadolig **Llawen** sydd ei angen. Un o bennaf fendithion ffydd yw'r gallu i ymlawenhau er gwaethaf pob trafferth, gofid a phoen. Nid gwadu realiti miniog tristwch a gofid a wna llawenydd ein ffydd, ond eu goresgyn a'u llorio! Er mor heini a chryf ein tristwch, mae llawenydd ein ffydd *bob* amser yn ei ddal, bob amser yn ei lorio.

Boed i'r Nadolig hwn fod yn Nadolig Llawen i ni. Sut bynnag mae arnom, boed i lawenydd yr Ŵyl hon ein cofleidio, ein cynnal a'n cadw. Llawenydd yw neges y Nadolig. Ei neges, nid ei ddymuniad!

Mae Duw yn gwneud llawer mwy na dymuno'n dda inni. Am mai oddi wrth Dduw y daw'r llawenydd, fe all fod yn brofiad byw, personol i bob un ohonom, a phawb ym mhob man. Gwyddai Mair hynny ... diolch ganwaith iddi am ein hatgoffa ni o hynny.